



Parchedig Mark Ansell | 01970 617184
Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL.
eglwysfair.cymru | eglwysfair@gmail.com

Dydd Gwener 5ed o Chwefror 2021

Cyfle i ddatblygu adeilad Eglwys y Santes Fair

Annwyl Aelod,

Diolch am gefnogi Eglwys y Santes Fair.

Ysgrifennaf atoch er mwyn eich hysbysu am gyfle unigryw i ddatblygu ac ehangu gweinidogaeth ein heglwys, a chryfhau ein cysylltiadau cymunedol.

Fel y gwyddoch, mae'r plwyf wedi bod yn rhedeg canolfan yng nghanol y dref ar gyfer unrhyw un sydd mewn angen - *Y Ffynnon*, yn Stryd y Popty. Roedden nhw'n darparu bwyd a diod, ac roedd yn rhywle diogel i bobl alw mewn tra roedden nhw'n siopa, neu os oedden nhw'n teimlo yn unig. Roedd yn croesawu pawb - gan gynnwys y rhai digartref, a'r rhai heb lawer o ffrindiau.

Yn anffodus nid oedd gennym arian i barhau i dalu'r rhent ar yr adeilad. Rydym wrthi chwilio am grantiau ar hyn o bryd er mwyn agor canolfan ein hunan. Y mae'n ymddangos bod digon o arian i'w gael, ond dim ond os ydyn ni'n berchen ar adeilad ein hunan. Felly wrth edrych ar y adeiladau sydd gyda ni yn y plwyf, roeddwn ni'n meddwl byddai'n syniad da i ddatblygu adeilad Eglwys y Santes Fair i fod yn gartref i'r canolfan newydd. Bydd hynny'n golygu derbyn arian i drwsio'r adeilad, gwella'r gegin a'r toiledau, a phrynu seddau newydd. Bydd yr adeilad ar agor bob dydd yn ystod yr wythnos i groesawu pawb, ac yn dal i gynnal gwasanaethau fel arfer ar ddydd Sul.

Nid ydym wedi dechrau ar gynlluniau posib eto; byddwn yn rhannu ein syniadau yn nes ymlaen. Ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych chi o blaid neu yn erbyn y syniad yma, buasai'n hyfryd clywed oddi wrthyich. Hefyd os ydych chi am helpu cynllunio neu geisio am grantiau, cysylltwch â ni os gwelwch chi'n dda.

Rydym yn gobeithio y gall hyn fod yn fenter newydd cyffrous i ni fel Eglwys.

Diolch yn fawr,

Parch. Mark Ansell

Ficer a Deon Ardal.